

**TRANSCRIPTION + TRANSLATION**  
**“6. ROB AND JESS”**

<b>CAPTION # / TIMECODE</b>	<b>ENGLISH</b>	<b>WELSH - CYMRAEG</b>
0001 10:00:00:08 10:00:03:06	We did a parade on the Gurnos Estate in Merthyr.	Fe wnaethon ni orymdaith ar Ystâd Gurnos ym Merthyr.
0002 10:00:03:11 10:00:07:13	We aroused a lot of curiosity when we were marching around this estate.	Roedd llawer o chwilfrydedd pan oedden ni'n gorymdeithio o amgylch yr ystâd hon.
0003 10:00:07:18 10:00:10:04	What are these people doing here and why?	Beth mae'r bobl hyn yn ei wneud yma a pham?
0004 10:00:10:13 10:00:13:22	But we did it and then we went to some other places like that	Ond fe wnaethon ni hynny ac yna aethon ni i lefydd tebyg eraill
0005 10:00:14:03 10:00:16:13	where they don't get any art or anything.	Ile dydyn nhw ddim yn gweld unrhyw gelf.
0006 10:00:16:18 10:00:20:04	Through doing that and feeling that you're a bit on your own,	Trwy wneud hynny ac wrth deimlo fel eich bod chi ychydig ar eich pen eich hunan,
0007 10:00:20:09 10:00:24:03	you build up an incredible sense of solidarity and bonding	rydych chi'n meithrin ymdeimlad anhygoel o undod a bondio
0008 10:00:24:08 10:00:27:02	with the other people taking the same risk.	gyda'r bobl eraill sydd yn cymryd yr un risg.
0009 10:00:28:07 10:00:32:10	It went from purely a workshop band,	Aeth e o fand gweithdy yn unig,
0010 10:00:32:15 10:00:35:21	which had a very, very limited potential life-span,	a oedd â hyd oes botensial gyfyngedig iawn, iawn,

0011 10:00:36:02 10:00:39:01	and a very limited potential aim -	a nod potensial cyfyngedig iawn -
0012 10:00:39:10 10:00:43:06	which was to do a couple of festivals or carnivals for SWICA.	sef gwneud cwpl o wyliau neu garnifalau gyda SWICA.
0013 10:00:43:11 10:00:48:13	When we started doing better paid gigs and especially the gigs abroad	Pan ddechreuon ni wneud gigs â chyflog gwell, ac yn enwedig y gigs dramor
0014 10:00:48:18 10:00:52:21	and all the festivals, then it became slightly more problematic	a'r holl wyliau, yna daeth y problemau
0015 10:00:53:02 10:00:57:22	because on the one hand you've got to be a workshop band that allows anybody in	oherwydd ar un llaw mae'n rhaid i chi fod yn fand gweithdy sy'n caniatáu i unrhyw un gymryd rhan
0016 10:00:58:03 10:01:01:06	and on the other hand you have to be professional.	ac ar y llaw arall, mae'n rhaid i chi fod yn broffesiynol.
0017 10:01:01:14 10:01:04:04	That builds a certain amount of tension.	Mae hynny'n creu rhywfaint o densiwn.
0018 10:01:04:09 10:01:08:13	I'm making it sound negative, but in fact it's quite a creative tension.	Dw i'n gwneud iddo swnio'n eitha negyddol, ond mewn gwirionedd mae'r tensiwn yn eithaf creadigol.
0019 10:01:08:18 10:01:11:06	It made the band better.	Fe wnaeth y band yn well.
0020 10:01:11:11 10:01:16:02	To me, that process started somewhere in the early to mid '90s	I fi, cychwynnodd y broses honno rhywle o'r 90au cynnar i ganol y

0021 10:01:17:08 10:01:20:09	In 1995, we went to Barcelona	'90au Ym 1995, aethon ni i Barcelona
0022 10:01:20:14 10:01:23:04	and we played in their Fiesta.	a wnaethon ni chwarae yn eu Fiesta.
0023 10:01:23:09 10:01:28:01	There's also a massive arts festival, so we played at the Olympic Village	Mae yna wyl gelf enfawr hefyd, felly fe wnaethon ni chwarae yn y Pentref Olympaidd
0024 10:01:28:06 10:01:30:15	to about 7,000 people	i tua 7,000 o bobl
0025 10:01:30:20 10:01:32:21	and thought, "This is amazing."	a meddwl, "Mae hyn yn anhygoel."
0026 10:01:33:02 10:01:38:15	Just a little community band from Wales playing to 7,000 people in Barcelona.	Band bach cymunedol o Gymru yn chwarae i 7,000 o bobl yn Barcelona.
0027 10:01:38:20 10:01:42:19	The parade seemed like everybody in the city was out on the streets.	Roedd yr orymdaith i weld fel bod pawb yn y ddinas wedi dod allan ar y strydoedd.
0028 10:01:43:00 10:01:44:13	The weather was gorgeous.	Roedd y tywydd yn hyfryd.
0029 10:01:44:21 10:01:48:17	It was just an amazing gig and a massive bonding experience.	Roedd yn gig anhygoel ac yn brofiad bondio da iawn.
0030 10:01:48:22 10:01:51:12	We all spent the weekend out every night.	Aethon ni allan bob nos trwy'r penwythnos.
0031 10:01:51:17 10:01:53:10	The pubs were open all night	Roedd y tafarndai ar agor trwy'r nos

<p>0032 10:01:53:15 10:01:57:01</p>	<p>because it's the festival, so we were out all the time.</p>	<p>oherwydd yr ŵyl, felly roedden ni allan trwy'r amser.</p>
<p>0033 10:01:57:06 10:02:03:00</p>	<p>They were probably the least used beds that we've ever had in hotels.</p>	<p>Mae'n debyg bod y gwelyau yna oedd y gwelyau i gael eu defnyddio lleiaf erioed mewn gwestai.</p>
<p>0034 10:02:04:05 10:02:09:02</p>	<p>Getting home to the hotel at 1.00am and the hotel had basically closed</p>	<p>Wrth gyrraedd adref i'r gwesty am 1.00am, roedd y gwesty wedi cau</p>
<p>0035 10:02:09:07 10:02:11:10</p>	<p>and everybody was really hungry.</p>	<p>ac roedd pawb eisiau bwyd.</p>
<p>0036 10:02:11:15 10:02:15:23</p>	<p>One of the sax players, Dave, used to be a cook so we raided the kitchen</p>	<p>Roedd Dave, un o'r chwaraewyr sacs, yn arfer bod yn gogydd, felly fe wnaethon ni fynd drwy'r gegin</p>
<p>0037 10:02:16:04 10:02:19:08</p>	<p>and basically stole all their food.</p>	<p>a dwyn eu bwyd i gyd.</p>
<p>0038 10:02:19:13 10:02:21:03</p>	<p>That was great fun.</p>	<p>Roedd hynny'n llawer o hwyl.</p>
<p>0039 10:02:21:08 10:02:24:09</p>	<p>The Brecon Jazz Festival in 2006</p>	<p>Yn ystod Gŵyl Jas Aberhonddu 2006,</p>
<p>0040 10:02:24:14 10:02:28:10</p>	<p>where we worked with a band from Cape Town called Amampondo.</p>	<p>buon ni'n gweithio gyda band o Cape Town o'r enw Amampondo.</p>
<p>0041 10:02:28:15 10:02:33:02</p>	<p>They were flying out for the festival. We had no time to rehearse with them.</p>	<p>Ro'n nhw'n hedfan allan ar gyfer yr ŵyl. Doedd dim amser i ymarfer gyda nhw.</p>

0042 10:02:33:07 10:02:39:00	We sent them a tape of some of our material and they just came up with drum parts	Fe wnaethon ni anfon tâp ohonon ni atyn nhw a gwnaethon nhw greu rhannau drwm
0043 10:02:39:05 10:02:42:01	because they're mostly a percussion group.	oherwydd grŵp taro ydyn nhw ar y cyfan.
0044 10:02:42:06 10:02:44:07	So we had the usual Wonderbrass,	Felly cawson ni'r Wonderbrass arferol,
0045 10:02:44:12 10:02:49:04	all dressed up in white shirts and tuxes and dicky bows	gyda phob un wedi'u gwisgo i fyny mewn crysau gwyn, tuxes a bwâu dicky
0046 10:02:49:09 10:02:52:11	or little black dresses	neu ffrogiau bach du
0047 10:02:54:00 10:02:59:12	and in the middle of this, there are six guys from Cape Town,	ac yn y canol, roedd chwech o ddynion o Cape Town,
0048 10:02:59:17 10:03:04:03	from the Xhosa tribe in Cape Town and they were dressed in tribal gear.	o lwyth yr Xhosa yn Cape Town, a ro'n nhw wedi'u gwisgo mewn dillad llwythol.
0049 10:03:04:08 10:03:08:14	And just the contrast between the people in black and white	Roedd y cyferbyniad rhwng y bobl mewn du a gwyn
0050 10:03:08:19 10:03:11:22	and these guys with feathers and fur and costumes	a'r dynion hyn gyda phlu a ffwr a gwisgoedd
0051 10:03:12:03 10:03:15:23	and African instruments in the middle, is an amazing image.	ac offerynnau Affricanaidd yn y canol, yn ddelwedd anhygoel.
0052 10:03:16:04 10:03:18:06	That went down really well.	Aeth hynny i lawr yn dda iawn.

<p>0053 10:03:18:11 10:03:22:10</p>	<p>We played to a packed audience and then we repeated it the year after.</p>	<p>Fe wnaethon ni chwarae i gynulleidfa orlawn ac yna fe wnaethon ni wneud e eto y flwyddyn ganlynol.</p>
<p>0054 10:03:22:15 10:03:25:19</p>	<p>But the year after they were over for another project,</p>	<p>Ond y flwyddyn ganlynol, ro'n nhw wedi dod draw ar gyfer prosiect arall,</p>
<p>0055 10:03:26:00 10:03:28:16</p>	<p>so we got to write some material with them.</p>	<p>felly roedd yna gyfle i ysgrifennu rhywfaint o ddeunydd gyda nhw.</p>
<p>0056 10:03:28:21 10:03:31:19</p>	<p>In Cork we all went to this bar.</p>	<p>Yng Nghorc, aethon ni i gyd i'r bar hwn.</p>
<p>0057 10:03:32:00 10:03:35:16</p>	<p>For no reason, just to have a drink one lunchtime.</p>	<p>Am ddim rheswm, dim ond i gael diod un amser cinio.</p>
<p>0058 10:03:35:21 10:03:39:16</p>	<p>Somebody brought out their trumpet, I think it was Richard.</p>	<p>Daeth rhywun â'u trymped allan, dw i'n credu mai Richard oedd e.</p>
<p>0059 10:03:41:12 10:03:46:19</p>	<p>Within an hour, we were playing an impromptu gig in this bar</p>	<p>O fewn awr, ro'n ni'n chwarae gig byrffyr yn y bar hwn</p>
<p>0060 10:03:47:00 10:03:49:18</p>	<p>essentially for fun, for free beer.</p>	<p>dim ond am hwyl, am gwrw am ddim.</p>
<p>0061 10:03:49:23 10:03:54:17</p>	<p>It was a great day, better than the gig in Cork itself, if I recall.</p>	<p>Roedd e'n ddiwrnod gwyh, yn well na'r gig yng Nghorc ei hunan, os dwi'n cofio'n iawn.</p>
<p>0062 10:03:55:02 10:03:56:21</p>	<p>Festival Number 6.</p>	<p>Gŵyl Rhif 6.</p>

0063 10:03:57:06 10:04:01:17	It's in Portmeirion which is the ornate village	Ym Mhortmeirion yw hi, sef y pentref addurnedig
0064 10:04:02:02 10:04:06:04	that features in the TV series, The Prisoner so it's beautiful,	sydd yn ymddangos yn y gyfres deledu, The Prisoner, felly mae'n brydferth,
0065 10:04:06:09 10:04:08:18	but it's also very small and compact.	ond mae hi hefyd yn fach iawn.
0066 10:04:08:23 10:04:13:16	And doing a carnival in there is amazing because people are right in your face.	Mae gwneud carnifal yno'n anhygoel oherwydd bod pobl yn eich wyneb.
0067 10:04:14:01 10:04:19:04	With the best will in the world, they can't keep a distance between the audience.	Gyda'r bwriadau gorau yn y byd, dydyn nhw ddim yn gallu cadw llawer o le rhwng y gynulleidfa.
0068 10:04:19:09 10:04:24:15	You get some people who just want to join in and you get some people who are baffled by it,	Mae yna rai pobl sydd eisiau cymryd rhan ac rydych chi'n cael rhai pobl sy'n cael eu drysu ganddo fe,
0069 10:04:24:20 10:04:28:01	as they always are in this country by carnival.	fel sydd wastad yn digwydd gyda charnifal yn y wlad hon.
0070 10:04:28:06 10:04:33:08	We finished on a stage with a samba band and co-ordinated a little set together.	Fe wnaethon ni orffen ar lwyfan gyda band samba ac ysgrifennon ni set gyda'n gilydd.
0071 10:04:36:03 10:04:41:04	Another big one is the London Olympics gig where we played on the South Bank	Un mawr arall yw'r gig ar gyfer y Gemau Olympaidd yn Llundain, ble gwnaethon ni chwarae ar y South Bank

0072 10:04:41:09 10:04:43:16	as part of the Cultural Olympiad.	fel rhan o'r Olympiad Diwylliannol.
0073 10:04:43:21 10:04:49:18	We played with Jason Yarde again and that was broadcast on the BBC,	Fe wnaethon ni chwarae gyda Jason Yarde eto a darlledwyd hynny ar y BBC,
0074 10:04:49:23 10:04:53:15	broadcast on BBC Radio 3, released on CD.	ar BBC Radio 3, ac roedd e wedi'i ryddhau ar CD.
0075 10:04:53:20 10:05:00:08	Twenty arts projects in Britain got selected to take part in that.	Cafodd ugain prosiect celfyddydol eu dewis ym Mhrydain i gymryd rhan yn hynny.
0076 10:05:00:17 10:05:02:16	We were the only one from Wales.	Ni oedd yr unig un o Gymru.
0077 10:05:02:21 10:05:06:11	But also, we thought that they were all amateur groups,	Ond hefyd, roedden ni'n meddwl eu bod nhw i gyd yn grwpiau amatur,
0078 10:05:06:20 10:05:12:03	but half of them were professional groups - opera companies were involved in that.	ond roedd hanner ohonyn nhw'n grwpiau proffesiynol - cafodd cwmnïau opera eu cynnwys.
0079 10:05:12:08 10:05:15:19	The only thing is that you had to commission a composer.	Yr unig rheol oedd bod rhaid i chi gomisiynu cyfansoddwr.
0080 10:05:16:00 10:05:22:08	Ten professional companies and ten amateur companies, I think, got selected in the end.	Cafodd deg cwmni proffesiynol a deg cwmni amatur eu dewis yn y diwedd, dw i'n meddwl.
0081 10:05:22:13 10:05:28:11	That made us even more take ourselves seriously,	Gwnaeth hynny wneud i ni gymryd ein hunain o



	because we were able to bid for	ddifrif, oherwydd roedden ni'n gallu gwneud ceisiadau
0082 10:05:28:16 10:05:32:21	and get commissions like that - and we've had a few commissions since.	ac ennill comisiynau fel yna - ac rydyn ni wedi ennill sawl gomisiwn ers hynny.
0083 10:05:33:02 10:05:35:05	We used to rehearse every Tuesday	Roedden ni'n arfer ymarfer bob dydd Mawrth
0084 10:05:36:09 10:05:39:12	and I think I went to 99% of them.	a dw i'n credu fy mod i wedi mynd i 99% ohonyn nhw.
0085 10:05:39:17 10:05:44:20	Sometimes, I can remember doing three, four gigs at the weekend.	Weithiau, dw i'n gallu cofio gwneud tri, pedwar gig ar y penwythnos.
0086 10:05:45:01 10:05:50:03	You'd play somewhere on the street in Cardiff in the afternoon	Byddech chi'n chwarae yn rhywle ar y stryd yng Nghaerdydd yn y prynhawn
0087 10:05:50:08 10:05:52:20	and play somewhere else in the evening.	a chwarae yn rhywle arall gyda'r nos.
0088 10:05:54:09 10:05:58:03	It was relentless. It was ongoing all the time.	Roedd hi'n ddi-baid. Roedd rhywbeth yn digwydd trwy'r amser.
0089 10:05:58:08 10:06:04:08	It was tough for us - for me and Rob in particular	Roedd hi'n anodd i ni - i fi a Rob yn benodol
0090 10:06:04:13 10:06:06:13	because members would change.	oherwydd byddai'r aelodau'n newid.
0091 10:06:06:18 10:06:10:04	You could play with ten people on a Saturday afternoon	Fe allech chi chwarae gyda deg o bobl ar brynghawn dydd Sadwrn

0092 10:06:10:09 10:06:14:12	and another ten or fifteen people on Saturday evening.	a deg neu bymtheg eraill ar y nos Sadwrn.
0093 10:06:14:17 10:06:17:20	So the members had it slightly easier than we did.	Felly roedd e'n haws i'r aelodau.
0094 10:06:18:01 10:06:21:11	But my memory of it is it being quite relentless sometimes.	Fy atgof i ohono fe yw ei fod e'n eithaf didostur weithiau.
0095 10:06:21:16 10:06:25:16	It just went on and on and on, which was a good thing, not a bad thing.	Aeth ymlaen ac ymlaen ac ymlaen, ac roedd hynny yn beth da, nid yn beth drwg.
0096 10:06:25:21 10:06:30:20	That's another really memorable gig - the gig that kicked this current project off	Mae yna gig cofiadwy iawn arall - y gig a wnaeth gychwyn y prosiect hwn
0097 10:06:31:01 10:06:34:11	in The Gate in Roath as part of Made In Roath Festival.	yn The Gate in y Rhath fel rhan o Wyl Made In Roath.
0098 10:06:34:16 10:06:37:12	It was an amazing evening really,	Roedd hi'n noson anhygoel, a dweud y gwir,
0099 10:06:37:17 10:06:41:23	because we had friends who hadn't been in the band for ages coming back	oherwydd daeth hen ffrindiau yn ôl oedd ddim wedi bod yn y band ers oesoedd
0100 10:06:42:04 10:06:44:00	and coming to see us.	i'n gweld ni.
0101 10:06:44:05 10:06:49:01	People who hadn't seen us for years coming in and	Daeth pobl oedd ddim wedi ein gweld ni ers blynnyddoedd i mewn i

	looking at what we were doing.	weld beth o'n ni'n ei wneud.
0102 10:06:49:06 10:06:53:00	It was a way of connecting the whole 25 year experience of the band	Roedd e'n ffordd o gysylltu holl hanes y band dros 25 mlynedd
0103 10:06:53:05 10:06:56:00	for those who have been in it for the full 25 years.	i'r rhai sydd wedi bod ynddo fe am y 25 mlynedd lawn.
0104 10:06:56:05 10:07:01:00	It pulled all that experience together because we were seeing old friends.	Tynnwyd yr holl brofiad hwnnw at ei gilydd oherwydd ro'n ni'n gweld hen ffrindiau.
0105 10:07:01:05 10:07:04:10	We had people on stage who hadn't played with us for ages.	Roedd yna bobl ar y llwyfan oedd ddim wedi chwarae gyda ni ers oesoedd.
0106 10:07:04:15 10:07:08:05	We were doing all the reminiscence and the looking back,	Roedden ni'n profi'r hiraeth ac yn edrych yn ôl,
0107 10:07:08:10 10:07:14:10	but we were also playing brand new material and that's why it felt really special.	ond hefyd, ro'n ni'n chwarae deunydd newydd sbon a dyna pam roedd e'n teimlo mor arbennig.
0108 10:07:15:03 10:07:18:17	The standard they've got now is infinitely better than it was.	Mae eu safon nhw heddiw yn llawer uwch nag oedd hi o'r blaen
0109 10:07:18:22 10:07:23:01	Almost all due to Rob and his efforts from a musical point of view,	o achos Rob a'i ymdrechion o safbwynt cerddorol,
0110 10:07:23:06 10:07:27:00	but you can't forget the people who work behind the scenes.	ond allwch chi ddim anghofio'r bobl sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni.

0111 10:07:27:07 10:07:31:16	In my day it was Denise who did stuff.	Pan o'n i yn y band, Denise oedd yn gwneud pethau.
0112 10:07:31:21 10:07:35:18	Largely unpaid, a largely thankless task.	Yn ddi-dâl yn bennaf, tasg ddi-ddiolch i raddau helaeth.
0113 10:07:35:23 10:07:40:04	And now it's the two Jennys who do stuff, as far as I know.	A nawr mae'r ddau Jenny yn gwneud pethau, hyd y gwn i.
0114 10:07:40:09 10:07:44:03	And as far as I can tell, a largely unpaid and thankless task	Tasg ddi-dâl a di-ddiolch i raddau helaeth, o fy safbwynt i
0115 10:07:44:08 10:07:46:09	which allows Rob to do his stuff.	sy'n caniatáu i Rob wneud ei stwff.
0116 10:07:46:14 10:07:50:16	Without them, nothing happens.	Heb ddyn nhw, does dim byd yn digwydd.
0117 10:07:51:01 10:07:56:05	So key moments, there are memorable gigs in Cork, Santiago in Spain	Eiliadau allweddol, mae yna gigs cofiadwy yng Nghorc, Santiago yn Sbaen
0118 10:07:56:10 10:08:01:10	and Vienne in France, Stuttgart.	a Vienne yn Ffrainc, Stuttgart.
0119 10:08:01:15 10:08:04:11	Those are the highlights for me, I think.	Dyna fy uchafbwyntiau i, dw i'n meddwl.